Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Porthaethwy
# Ysgol Y Borth
# Porthaethwy
# Ynys Môn
# LL59 5HS

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014**

**gan**

**Owen Glyn Roberts**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Porthaethwy yn feithrinfa gyn-ysgol sy’n cynnig addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i blant tref Porthaethwy ar Ynys Môn. Mae’r lleoliad wedi gweithredu ers y 1970au. Cynhelir y feithrinfa o fewn ystafell ddosbarth yn yr ysgol gynradd leol. Defnyddir adnoddau’r ysgol yn effeithiol gan gynnwys yr ardal tu allan a’r neuadd. Cynhelir y lleoliad am bedair sesiwn brynhawniau'r wythnos, o 12.30 tan 3.00. Mae’r feithrinfa ar agor am 39 wythnos y flwyddyn.

Daw’r plant i’r cylch ar ôl iddynt hwy gyrraedd dyflwydd a hanner. Bydd bron oll ohonynt yn trosglwyddo i’r ysgol gynradd leol yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Ar hyn o bryd, mae 19 o blant tair oed ar y gofrestr, 17 ohonynt o gartrefi ble nad yw’r Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu. Mae 15 yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Daw plant o bob gallu a chefndir cymdeithasol ac ieithyddol i’r cylch ac mae bron pob un o’r plant yn byw ym Mhorthaethwy a’r cyffiniau.

Mae pum aelod o staff yn gweithio yn y lleoliad ar hyn o bryd. Mae’r arweinyddion wedi bod yn eu swyddi am y tair blynedd ddiwethaf. Mae ganddynt oll gymwysterau addas. Mae’r lleoliad hefyd yn cael ei gefnogi gan athrawes gymwys am 10% o’r amser, ac ariennir hyn drwy’r Bartneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lleol.

Arolygwyd y feithrinfa ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ionawr 2014 a chan Estyn yn Rhagfyr 2008.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y plant yn llwyddo'n dda i ddatblygu medrau ar draws yr ardaloedd dysgu;
- ymddygiad y plant yn dda iawn;
- yr addysgu'n gyson dda;
- y lleoliad yn cynnig ystod eang o brofiadau ysgogol; ac mae'r
- lleoliad yn sicrhau gofal o ansawdd da.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- arweinwyr yn sicrhau cydweithio effeithiol yr holl staff;
- ymarferwyr yn ymwybodol o gryfderau ac elfennau i'w datblygu;
- ymarferwyr yn ymdrechu'n gyson i ddatblygu'r ddarpariaeth; a bod
- y lleoliad yn gwneud defnydd da o bartneriaethau i atgyfnerthu a chyfoethogi'r ddarpariaeth.

## Argymhellion

A1. Codi safon y Gymraeg ar lafar.

A2. Sicrhau mwy o gyfleoedd i'r plant ddewis gweithgareddau.

A3. Datblygu rôl heriol y pwyllgor rheoli.

A4. Cryfhau'r drefn hunan arfarnu a gosod blaenoriaethau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y cylch mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ar draws yr ardaloedd dysgu. Maent yn datblygu trwy adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol. Mae llawer o'r plant yn aros ar eu tasgau ac yn cael mwynhad o ddysgu.

Mae medrau cyfathrebu bron oll o'r plant yn datblygu'n briodol. Mae bron pob plentyn yn gwrando'n astud yn ystod y cyfnodau ar y mat. Maent yn dangos diddordeb yn y stori ddyddiol ac yn awyddus i ymateb i gwestiynu'r oedolion. Mae bron pob un yn cyfathrebu yn dda ar lafar o fewn eu mamiaith. Gall llawer ohonynt gynnal sgyrsiau yn aeddfed gydag oedolion a'u cyfoedion yn arbennig wrth chwarae rôl yn y siop a phan ar dasgau.

O ystyried man cychwyn y plant maent yn gwneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth o'r Gymraeg ac yn ymateb yn y Gymraeg i gwestiynu penodol ar adegau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg wrth ganu, adrodd rhigymau, son am liwiau neu deimladau ac wrth gyfrif. Fodd bynnag, ychydig sy'n hyderus wrth gyfathrebu ar lafar yn y Gymraeg a dewisa'r mwyafrif ymateb yn Saesneg. Ychydig iawn sy'n dewis siarad yn y Gymraeg o'u gwirfodd.

Mae pob plentyn yn adnabod ei enw mewn print yn ystod y broses gofrestru ar ddechrau sesiwn. Mae llawer yn gyfarwydd â thrin llyfrau gan edrych ar y lluniau a throi tudalennau yn gywir. Mae'r mwyafrif yn ymarfer medrau ysgrifennu cynnar yn briodol trwy wneud marciau gan ddefnyddio paent, creonau a chreu siapiau yn y tywod.

Mae bron pob plentyn yn gallu rhifo hyd at 18 yn hyderus wrth gofrestru ar ddechrau'r sesiwn. Maent hefyd yn deall a defnyddio gweithdrefnau syml fel 'faint sydd yna i gyd?' a 'faint sydd ar ôl?'. Mae llawer yn gallu didoli, cyfateb a chyfrif yn hyderus. Gall y plant drefnu gwrthrychau mewn amrywiol ffyrdd, er enghraifft trwy liw neu faint. Mae llawer o'r plant yn gallu defnyddio'u medrau rhif yn briodol mewn gweithgareddau amrywiol ar draws y cwricwlwm fel defnyddio arian i brynu yn y siop.

Mae ychydig o'r plant yn dechrau datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu priodol trwy'r defnydd da o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol a rheoli teclyn electronig gyda chymorth oedolyn.

Mae medrau personol a chymdeithasol y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Gall y rhan fwyaf o'r plant olchi eu dwylo heb gymorth. Mae rhai yn gallu tynnu a rhoi sanau ac esgidiau yn ystod sesiynau corfforol yn neuadd yr ysgol. Mae bron oll ohonynt yn rhannu adnoddau ac yn fodlon cymryd eu tro.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn ymgartrefu'n gyflym ar ôl cyrraedd y cylch ac yn ymgynnull yn dawel ar y mat i gofrestru. Mae ymddygiad y plant yn arbennig o dda. Maent wedi ffurfio perthynas glos gyda'r oedolion a chyd weithiant â'u cyfoedion yn ddidrafferth. Mae'r plant oll yn ymddangos yn hapus ac maent yn troi yn rhwydd at oedolion pan fo angen cymorth arnynt.

Mae agwedd bron oll tuag at ddysgu yn dda, maent yn frwdfrydig ac yn mwynhau cymryd rhan yn y gwahanol weithgareddau. Mae llawer yn dyfalbarhau ar dasgau yn dda am gyfnodau estynedig.

Mae pob plentyn yn barod ac yn awyddus i helpu i dacluso, i rannu ++++++++++++++++++++++++++++++++++++++++++y byrbrydau ac i gefnogi ei gilydd mewn gweithgareddau. Maent oll yn hunan gofrestru'n ddyddiol.

Mae llawer o'r plant yn ymwybodol o'r angen i fwyta ac yfed yn iach ac ymarfer y corff, trwy'r Cynllun Iach Cyn-Ysgol. Maent yn golchi dwylo yn briodol ac yn ymwybodol o'r angen i gadw'n lan.

Mae medrau cymdeithasol y rhan fwyaf yn datblygu'n effeithiol trwy'r gweithgareddau a'r ymweliadau cymunedol a drefnir yn fwriadol. Mae'r plant yn ail gylchu plastig a phapur ac yn ymwybodol o'r angen i edrych ar ôl ein byd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cylch yn darparu ystod eang o weithgareddau priodol er mwyn ysgogi dysgu'r plant yn effeithiol. Cynllunnir y gweithgareddau i gydymffurfio'n llawn â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gan sicrhau bod y plant yn cael profiadau cyson o fewn y chwe maes dysgu.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n fanwl ar daflenni pwrpasol sy'n nodi'n glir yr ardaloedd chwarae, yr adnoddau i gyfoethogi a'r gweithgareddau posibl. Mae'r arweinwyr yn cynllunio ar y cyd ac yn ymgynghori hefo'r athrawes feithrin o fewn yr ysgol gynradd leol. Cynllunnir ar sail themâu penodol tros gyfnod o dair wythnos ar y tro gyda chynllunio manylach o leiaf yn wythnosol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau cysondeb a dilyniant llwyddiannus yn natblygiad y plant.

Mae'r lleoliad yn sicrhau ystod dda o brofiadau sy'n datblygu medrau yn effeithiol. Manteisir ar bob cyfle bosibl i ddatblygu medrau cyfathrebu a rhifedd ar draws yr ardaloedd dysgu. Mae'r staff oll yn cynnig esiamplau o iaith raenus i'w hefelychu gan y plant.

Caiff y plant gyfleoedd cyson i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy gyflwyno llyfrau Cymraeg, dathlu gŵyl Ddewi ac ymweliadau â'r ardal leol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant. Maent yn cael cyfle i ymweld â chanolfan garddio lleol a choedlan gyfagos yn ogystal â chymryd rhan yn y carnifal blynyddol. Gwahoddir aelodau o'r gymuned i mewn i drafod eu gwaith gyda'r plant, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r plant ymhellach.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn brofiadol ac yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda. Maent oll yn effeithiol yn eu defnydd o iaith raenus fel patrwm i'r plant. Maent yn gwneud defnydd da o ystod briodol o ddulliau dysgu sy'n sicrhau datblygiad y plant. Maent yn cwestiynu'n effeithiol sy'n dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn symud y dysgu yn ei flaen.

Manteisir yn gyson ar gyfleoedd i ddatblygu'r medrau yn draws gwricwlaidd gan annog y plant i siarad a chyfrif wrth weithio ar amrywiol dasgau o fewn yr ardaloedd dysgu. Mae'r ymarferwyr wedi llwyddo i feithrin perthynas gynnes hefo'r plant sy'n eu galluogi i ymgeisio ar dasgau yn hyderus heb fod ofn profi methiant.

Mae gan yr ymarferwyr drefn effeithiol o ganmol a gwobrwyo sy'n hyrwyddo ymddygiad ardderchog yn gyson. Cynllunnir gweithgareddau yn drwyadl ar gyfer y plant ond ni roddir digon o gyfleoedd cyson i'r plant ddewis yr hyn maent am ei wneud a rhoddir gormod o arweiniad. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r plant i fod yn greadigol ar adegau.

Mae gweithdrefnau asesu'r cylch yn gadarn ac mae'r ymarferwyr i gyd yn cyfrannu at y broses. Manteisir ar drefn y sir o asesu gan ddefnyddio taflenni a llyfrau pwrpasol. Asesir y plant ar fynediad gan gynnwys y rhieni yn y broses, sy'n dylanwadu yn effeithiol ar feithrin partneriaeth er lles y plant. Cynllunnir gweithgareddau ffocws yn rheolaidd, sy'n cael eu hasesu a'r canlyniadau yn cael eu cofnodi yn briodol. Mae'r drefn asesu yn dylanwadu yn effeithiol ar y cynllunio dydd i ddydd. Trwy gydol cyfnod y plant o fewn y lleoliad, cedwir cofnodion o'u datblygiad o fewn llyfr personol. Mae'n cynnwys lluniau a phenawdau sy'n dystiolaeth effeithiol o ddatblygiad ym mhob agwedd o'r dysgu. Cyflwynir y llyfr i'r rhieni yn ystod y prynhawn agored ar ddiwedd cyfnod y plant yn y feithrinfa.

Mae'r adroddiad o gynnydd a'r llyfr a roddir i rieni ar ddiwedd y flwyddyn yn cyfleu datblygiadau'r plant ar draws meysydd y Cyfnod Sylfaen yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn ofalus o holl blant y cylch ac yn rhoi ystyriaeth deg i ofynion unigolion. Mae trefniadau'r cylch i hyrwyddo byw yn iach trwy gynllun penodol y sir, yn effeithiol. Defnyddir neuadd yr ysgol yn rheolaidd ar gyfer ymarfer y corff.

Rheolir ymddygiad yn dda iawn ac mae trefniadau pendant yn eu lle ar gyfer rhediad effeithiol dydd i ddydd y lleoliad.  Mae'r plant yn cael eu cymell i edrych ar ôl eu hunain ac i fod yn annibynnol trwy wisgo, tynnu a rhoi esgidiau ac i olchi dwylo pan yn briodol.  Mae ymarferwyr yn gyson hyrwyddo a meithrin gwerthoedd, fel tegwch a gonestrwydd, yn dda a sicrheir fod cyfleoedd i drafod teimladau ac effaith ein gweithredoedd ar eraill.

Sicrheir llais i'r plentyn o fewn yr amseroedd cylch pwrpasol a drefnir yn rheolaidd a'r holiaduron syml sy'n cael eu llenwi tuag at ddiwedd y flwyddyn, gyda help oedolyn.

Mae ymweliadau â'r gymuned leol a gwahodd siaradwyr i mewn, yn effeithiol yn creu cyswllt a chodi ymwybyddiaeth y plant o'u cymdeithas leol a'r gwasanaethau sydd ar gael i gynnig cymorth.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae trefn benodol yn bodoli ar gyfer adnabod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar.  Mae gan y lleoliad weithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer ymateb i anghenion gwahanol unigolion.  Mae cynlluniau addysg unigol wedi eu darparu ar gyfer y plant sydd eu hangen.  Mae ymarferwyr hefyd yn ymgynghori â rhieni yn gyson.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ethos cartrefol a chroesawgar o fewn y lleoliad.  Mae ymarferwyr yn dangos parch a gofal tuag at y plant gan ddefnyddio llawer iawn o ganmoliaeth i ysgogi dysgu ac ymddygiad da.  Mae pob plentyn yn cael yr un chwarae teg ac yn cael mynediad cyfartal i'r holl brofiadau a gynigir.  Mae ymarferwyr yn hyrwyddo cyd weithio a'r angen i ystyried teimladau eraill yn gyson, sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad personol a chymdeithasol y plant.

Mae gan y lleoliad gyflenwad cyfoethog o adnoddau dysgu o ansawdd da iawn sy'n cael ei rannu hefo dosbarth meithrin yr ysgol gynradd.  Gan fod y cylch yn cael ei gynnal o fewn dosbarth meithrin yr ysgol, mae holl adnoddau'r ysgol ar gael iddo. Gwneir defnydd llawn o'r adnoddau, gan gynnwys yr ardal tu allan a neuadd yr ysgol. Mae hyn yn un o gryfderau amlwg y lleoliad ac yn cyfrannu'n dda at ddysgu plant. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arddangosfeydd lliwgar a deniadol er mwyn atgyfnerthu'r dysgu a dathlu gwaith y plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan arweinwyr y cylch weledigaeth glir o beth sydd angen ei wneud i ddatblygu’r cylch. Mae’r holl staff yn rhannu’r un weledigaeth ac yn gweithio fel tîm i sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo i ddysgu. Maent oll yn ymwybodol o anghenion pob plentyn ac yn cynllunio yn fwriadol ar gyfer gwireddu'r rhain gan gynnwys yr angen i ddatblygu iaith lafar Gymraeg y plant mewn byr amser.

Mae’r pwyllgor rheoli yn cyfarfod yn briodol ac yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd gan arweinwyr y cylch. Mae’r swyddogion yn sicrhau fod gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gyfer cynnal y cylch yn effeithiol o ddydd i ddydd. Serch hynny, nid ydynt yn wybodus iawn am berfformiad y cylch ac nid ydynt yn ddigon heriol.

Mae prosesau effeithiol yn bodoli i reoli perfformiad ymarferwyr yn flynyddol. Mae’r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant sydd rhan amlaf yn seiliedig ar dargedau gwella’r ddarpariaeth. Rhoddir ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol fel gweithredu i godi safonau medrau cyfathrebu a rhifedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau a’r hyn sydd angen ei wella o fewn y cylch trwy’r drefn o arsylwi a chyd gynllunio. Manteisir ar gefnogaeth yr awdurdod lleol wrth werthuso’r ddarpariaeth a defnyddir yr adroddiadau a gynhyrchir fel sail i’r hunan arfarnu. Mae’r lleoliad yn ymateb yn dda i’r argymhellion yn dilyn yr ymweliadau hyn. Mae’r cylch hefyd wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Mae llais y plentyn a’r rhieni yn cael lle amlwg o fewn y broses o werthuso a gosod blaenoriaethau, trwy holiaduron blynyddol.

Ar y cyfan mae’r adroddiad hunan arfarnu yn rhoi syniad da o’r hyn sy’n effeithiol a’r hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach ac o bryd i’w gilydd yn arfarnol. P’run bynnag nid oes ynddi ddigon o fanylder am rai agweddau. Mae’r cynllun datblygu yn cynnwys targedau cysylltiedig â’r broses hunan arfarnu ond yn fyr o gyfeiriad tuag at gamau gweithredu bychain sydd â meini prawf llwyddiant mwy mesuradwy. Serch hynny, mae tystiolaeth eisoes ar gael fod y prosesau yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r cylch yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o bartneriaid sy’n cyfrannu’n sylweddol at ansawdd y ddarpariaeth a safonau a lles y plant.

Mae gan y cylch berthynas gadarn hefo’r rhieni. Darperir ystod eang o wybodaeth berthnasol iddynt. Maent yn derbyn gwybodaeth gyson am ddatblygiad y plant gan gynnwys adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn a chyfle i ddod i mewn i brynhawn agored.

Derbyniant hefyd lythyrau cyson yn hysbysu o weithgareddau a digwyddiadau perthnasol. Mae pob ymateb a dderbyniwyd i'r holl gwestiynau yn yr holiadur yn gadarnhaol a dywedant eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd rheolaidd i drafod datblygiad eu plant.

Ers lleoli'r cylch o fewn yr ysgol leol, mae'r bartneriaeth hefo'r ysgol yn un o gryfderau amlwg y lleoliad. Mae'r cylch yn rhannu ystafell ac adnoddau hefo dosbarth meithrin yr ysgol. Manteisia'r cylch i'r eithaf ar hyn gan rannu syniadau, cyd gynllunio a rhannu gwybodaeth. Mae pennaeth a rhai o staff yr ysgol yn ymwelwyr cyson i'r cylch. Mae'r cyswllt cryf hwn yn hwyluso trefniadau trosglwyddo plant o'r lleoliad i'r ysgol yn dda a sicrhau parhad yn y dysgu.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau adeiladol hefyd gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin. Trwy'r partneriaethau hyn mae'r ymarferwyr yn derbyn arweiniad cadarn a hyfforddiant perthnasol sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae lle'r cylch o fewn ei chymuned leol yn amlwg. Trwy'r amrywiol ymweliadau a drefnir a'r gwahoddiadau i ymwelwyr o'r gymuned, mae'r plant yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r byd o'u cwmpas.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o staff ac o'r adnoddau a rennir gyda'r ysgol gynradd leol. Mae gan y lleoliad ddigon o staff â chymwysterau addas ar gyfer cyflwyno addysg y Cyfnod Sylfaen a derbyniant hyfforddiant rheolaidd i ymateb i unrhyw newidiadau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau defnydd effeithiol o'r ymarferwyr er mwyn ymateb yn llawn i anghenion pob plentyn.

Mae gan y lleoliad a swyddogion y pwyllgor rheoli, ddealltwriaeth glir o'r sefyllfa gyllidol. Maent yn ddarbodus mewn rheolaeth o adnoddau ac yn gwneud defnydd da iawn o'r cyllid sydd ar gael. Sicrheir fod gwariant yn cael ei gyfeirio at ymateb i'r blaenoriaethau o fewn y cynllun datblygu. Arbedir arian trwy sicrhau nad oes dyblygu wrth archebu ar y cyd hefo dosbarth meithrin yr ysgol. Mae'r arian a gedwir wrth gefn wedi ei glustnodi ar gyfer datblygu gofod tu allan. Gwneir hyn ar y cyd hefo'r ysgol gynradd gan rannu'r gost a chael mewnbwn i'r cynllunio. O ystyried y defnydd effeithlon o'r cyllid, a'r deilliannau mae'r plant yn eu cyrraedd, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Owen Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol blant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |